Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 04-05-21 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Wendy Williams, John Lloyd Williams a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorwyr Austin Roberts, Gwyn Jones, Arthur Williams, Geraint Owen, Gwenan Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (06/04/21) a cofnodion y cyfarfod brys 18/03/21.

   Cynigwyd cofnodion 06/04/21 yn gywir gan Cyng John Emlyn ac eiliwyd gan Cyng Wendy.
   Cynigwyd cofnodion 18/03/21 yn gywir gan Cyng Ceri ac eiliwyd gan Cyng John Emlyn.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Ethol Swyddogion:**

     Cadeirydd – Cyng Gwilym Williams
     Is-Gadeirydd – Cyng Wendy Williams

     Pwyllgor y Neuadd – Cyng Ceri. Cyng Wendy yn cynnig, Cyng John Lloyd yn eilio.
     Llywodraethwyr yr Ysgol – Cyng John Emlyn. Cyng Gwilym yn cynnig, Cyng Wendy yn eilio.

     Diolchodd Cyng John Emlyn i Cyng Gwilym am ei waith fel Cadeirydd dros y flwyddyn diwethaf.

   - **Adolygu Asesiad Risg:**

     Angen ychwanegu gwybodaeth am Covid-19 i asesiad toiledau'r pentref.

- **Cae Chwarae - adroddiad a baw ci:**

  Mae rhai perchnogion cŵn wedi cael eu gweld yn mynd â'u cŵn i'r cae chwarae ac yn gadael iddyn nhw grwydro. Mae hyn yn gwbl waharddedig am resymau iechyd a diogelwch. Mae angen arwydd baw cŵn mwy amlwg ar y giât i'r cae chwarae sy'n dangos costau dirwy.

- **Heol Martin – perchnogaeth tir:**

  Cadarnhaodd y Clerc fod y tir yn eiddo i CBSC.

- **Llwybyr Bryn Hir*:***

  Cyng Austin wedi gofyn i CBSC dorri'r clawdd pan fydd y dwr wedi gostwng. Angen arwyddion i ofyn i berchnogion beiciau modur beidio a defnyddio'r llwybyr.

- **Toiledau Cyhoeddus:**

  Cadarnhaodd y Clerc y gallai toiledau'r pentref ail agor ond y Clerc i holi CBSC ynghylch rheoliadau Covid-19 ynghylch glanhau'r toiledau.

- **Awdit 19/20 – 20/21:**

  Cadarnhaodd y Clerc fod y gwybodaeth archwilio 19/20 yn barod i'w anfon a'i bod yn coladu gwybodaeth 20/21 ar hyn o bryd.

6. **CYNLLUNIO**

   Dim.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

   Cyfredol - £8,850.87
   Angladdau - £1,314.20
   Cadw - £2,078.21

   **Taliadau Ar-lein:**
   **Cyfredol:**

- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00

**Angladdau:**

- Arwel Williams (Torri Glaswellt) - £345.00

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC - Cronfa Adfywio Cymunedol y DU:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – Cais BT i gau Ffordd Penrhyd:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Rachel, The Dell – plant yn chwarae pel droed yn y fynwent cyhoeddus:**
  Trafodwyd y mater. Cyng Ceri i ofyn i arweinwyr yr Eglwys am ganiatâd i roi arwyddion. Y Clerc i holi CBSC ynghylch arwyddion.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Neges o ddiolch gan Menna Charlton am drwsio y gamfa;
- Camfa bren wrth y chwarel wedi torri - grisiau wedi diflannu;
- Bin Du y Fynwent ac Eglwys heb eu gwagio. Cyng Austin i ffonio ERF;
- E-bost gan breswylydd am gyflwr y camfeydd yn ardal Eglwys Bach;
- Neges gan Mrs Hughes, 5 Glan Aber am ddwr yn dod o'r cae – wedi cael ei sortio;
- Pont Dolgarrog – cyfarfod cyntaf wedi ei gynnal rhwng yr asiantaethau.

Ymunodd Cyng Austin a'r cyfarfod am 7.54pm.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

01/06/21
06/07/21
07/09/21
05/10/21
02/11/21
07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 o'r gloch.